



# **Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru**

## **Canllaw Ymarfer**

# **Gwneud Penderfyniadau mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant**

*Fersiwn 2 Hydref 2020*

## **1.0. Cyflwyniad**

- 1.1. Mae'r canllaw ymarfer hwn yn darparu gwybodaeth i ymarferwyr sy'n mynychu Cynadleddau Amddiffyn Plant a'r disgwyliadau sydd arnynt.
- 1.2. Mae'n darparu cyngor a chanllawiau o safbwynt gwneud penderfyniadau mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant.
- 1.3. Mae'r canllaw ymarfer hwn yn cyngori ar y broses ar gyfer gwneud sylwadau pe bai gweithwyr proffesiynol neu deuluoedd sy'n mynychu'r gynhadledd am fynegi pryderon neu wneud cwyn swyddogol.
- 1.4. Dylid darllen y canllaw ymarfer hwn ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

## **2.0. Y Broses o Wneud Penderfyniadau mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant**

- 2.1. Ar ôl cyflwyno a thrafod adroddiadau ysgrifenedig a llafar, a chyfraniadau gan y teulu, bydd Cadeirydd y gynhadledd yn crynhoi'r wybodaeth. Mae rôl y Cadeirydd yn cynnwys rhoi'r ffeithiau a gyflwynwyd yn eu cyd-destun y gellir ei hysbysu drwy ymchwil, ac egluro'r ffactorau risg sy'n codi o'r wybodaeth. Bydd y Cadeirydd wedyn yn gofyn a yw aelodau'r gynhadledd yn teimlo fod hyn yn grynodedb cywir, cyn symud ymlaen.
- 2.2. Gofynnir i aelodau'r gynhadledd wedyn i gyflwyno eu barn ar y risgiau, y cryfderau a'r anghenion yn seiliedig ar yr holl wybodaeth a rannwyd yn y gynhadledd.
- 2.3. Bydd pob cynrychiolydd asiantaeth wedyn yn cael eu holi am eu penderfyniad ynglŷn ag a yw pob plentyn mewn perygl parhaol o niwed sylweddol ac felly a oes angen Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth arnynt ac a ddylid rhoi eu henw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.
- 2.4. Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol sy'n mynychu'r gynhadledd fod yn ymwybodol eu bod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau ac ni allant wrthod eu cyfrifoldeb. Maent oll yn gyfrifol am leisio eu barn broffesiynol eu hunain.
- 2.5. Dylai'r penderfyniad adlewyrchu barn gyffredin y gynhadledd. ***Ble bo'n bosib dylai aelodau'r gynhadledd geisio dod i farn gyffredin ynglŷn ag a yw pob plentyn mewn perygl parhaol o niwed sylweddol ai peidio.***
- 2.6. Lle na ellir cyrraedd barn unfrydol, dylai'r Cadeirydd geisio datrys hynny e.e. drwy ail grynhoi y problemau a hwyluso trafodaeth bellach.
- 2.7. Dim ond lle mae gwahaniaeth mawr mewn barn y dylid mynd i bleidlais, gyda'r unigolyn a enwebwyd neu arweinydd pob asiantaeth yn cael eu holi i bleidleisio wrth gofrestru. ***Dylid ceisio osgoi pleidleisio ble bo'n bosib.***
- 2.8. Dylid selio pleidleisio ar asiantaethau ac / neu grwpiau proffesiynol yn hytrach nag unigolion, sydd wedi eu rhestru isod yn Rhan 2. Dylai'r Cadeirydd nodi'r grwpiau proffesiynol perthnasol o fewn asiantaethau yn glir at ddibenion

pleidleisio. Dylai'r uwch staff sy'n bresennol yn y gynhadledd o bob asiantaeth gynorthwyo yn y broses hon a sicrhau bod grwpio proffesiynol yn cael ei gadw i'r isafswm posib. Mae'n bosib y bydd angen egwyl fer yn ystod y gynhadledd i hwyluso hyn. Dylai pob asiantaeth fod â threfniadau yn eu lle i sicrhau cysondeb yn y broses hon.

- 2.9. Y nod yw cyrraedd penderfyniad mwyafrifol. Bydd yr asiantaethau oedd yn anghytuno â'r farn fwyafrifol hefyd yn cael eu rhestru yn y cofnod ysgrifenedig o'r gynhadledd.
- 2.10. Os yw pleidlais wedi eu rhannu 50/50, y Cadeirydd fydd â'r bleidlais fwrw o safbwynt a yw'r plentyn mewn perygl parhaol o niwed sylweddol ac felly a oes angen Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth arnynt ac a ddylid rhoi eu henw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.
- 2.11. Ow yw'r Cadeirydd yn credu bod y penderfyniad yn rhoi'r plentyn mewn peryg, rhaid iddo/iddi nodi hyn yn y gynhadledd a chynnwys eu pryderon wrth Grynhoi. Yn union ar ôl y gynhadledd, rhaid iddynt uwchgyfeirio eu pryder at yr uwch reolwr sy'n gyfrifol am amddiffyn plant.
- 2.12. Mae'r opsiwn gan y Cadeirydd hefyd i fynd i'r afael ag unrhyw anghydfod proffesiynol, fel sydd gan aelodau eraill y gynhadledd, os ydynt yn teimlo nad yw plentyn yn cael ei amddiffyn yn ddigonol. Mewn gwirionedd, mae dyletswydd ar bob gweithiwr proffesiynol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon parhaus. (Gweler y Protocol ar gyfer Datrys Anghydfodau Proffesiynol)

***Yn dilyn penderfyniad y Gynhadledd, mae'n hanfodol fod holl aelodau'r gynhadledd yn trafod ac yn cyfrannu at unrhyw Gynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth arfaethedig er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw risgiau a nodwyd.***

### **3.0. Grwpiau Proffesiynol**

- 3.1. Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi cytuno ar yr enghreifftiau canlynol o grwpiau proffesiynol:
  - **Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant** (gan gynnwys yr holl dimau gwaith cymdeithasol, a'r holl wasanaethau sy'n cael eu rheoli o fewn Gwasanaethau Plant e.e. gwasanaethau maethu),
  - **Gwasanaethau Iechyd Plant** (gan gynnwys Pediatregydd, Ymwelydd Ymwelwyr Iechyd, Nyrs Ysgol, Nyrs Pediatreg - aciwt a chymunedol, Therapi Lleferydd, Bydwreigiaeth, Nyrsys Arbenigol, Ffisiotherapydd, Nyrs allgymorth newyddenedigol, CAHMS, Meddyg Teulu)
  - **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid**
  - **Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion** (gan gynnwys yr holl dimau gwaith cymdeithasol, a'r holl wasanaethau sy'n cael eu rheoli o fewn Gwasanaethau Oedolion e.e. gwasanaethau lleoli oedolion, timau cymorth

cymunedol)

- **Gwasanaethau Iechyd Oedolion** (gan gynnwys Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Anableddau Dysgu, Bydwreigiaeth, Meddyg Teulu, Gwasanaethau Cam-drin Sylweddau)
- **Heddlu**; gan gynnwys PPU a Swyddogion Adrannol
- **Y Gwasanaethau Prawf**
- **Tai**; (gan gynnwys cymorth tenantiaeth, neu Gymdeithasau Tai)
- **Addysg**; gan gynnwys ysgol gynradd, ysgol uwchradd, meithrinfa, Swyddog Lles Addysg
- **Darparwyr Blynyddoedd Cynnar cyn ysgol** gan gynnwys Dechrau'n Deg (ar wahân i ymwelwyr iechyd)
- **Grwpiau gwirfoddol**; gan gynnwys Cymorth i Fenywod, Gweithredu dros Blant, Barnado's, NSPCC (nid eiriol), Homestart,
- Unrhyw asiantaeth arall yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd

*(Nodwch os ydych yn rhan o dîm aml-asiantaeth y byddwch yn cael un bleidlais yn unol â'r gwasanaeth rydych yn ei gynrychioli e.e. gall CMHT eistedd gyda Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion neu Wasanaethau Iechyd)*

3.2. Dylai cofnod ysgrifenedig y gynhadledd adlewyrchu'r grwpiau proffesiynol a nodwyd, gan gynnwys sefyllfaoedd lle **mae'r Cadeirydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â grwpiau o'r fath, a'r rheswm dros y penderfyniad hwn.** Bydd y cofnod ysgrifenedig hefyd yn cynnwys unrhyw wahaniaeth barn a fynegwyd yn y gynhadledd, gan gynnwys unrhyw bryderon a godwyd gan y Cadeirydd ynglŷn â diogelwch y penderfyniad.

#### **4.0. Mynychwyr Eraill**

4.1. Mae pobl eraill hefyd yn mynychu Cynadleddau Amddiffyn Plant nad ydynt yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rhieni,
- Plant a phobl Ifanc,
- Aelodau o'r teulu neu bobl sydd yno i gefnogi'r rhieni,
- Eiriolwyr dros y plentyn
- Cynrychiolwyr cyfreithiol y rhieni neu'r bobl ifanc
- Staff Arolygiaeth Gofal Cymru

- Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS)
  - Gofalwyr maeth a gofalwyr preswyl
- 4.2. Dylid gofyn i rieni, plant a phobl ifanc ac aelodau teulu am eu barn, ond y gweithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol.
- 4.3. Yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, bydd y gynhadledd hefyd yn ystyried a fyddai Cynllun Amddiffyn Gofal a Gwarchod yn fwy priodol o dan amgylchiadau lle penderfynwyd nad yw Cynllun Amddiffyn Gofal a Gwarchod yn angenrheidiol
- 4.4. Bydd yr holl weithwyr proffesiynol ac asiantaethau a wahoddwyd i fynychu cynhadledd yn cael eu holi i gyflwyno adroddiad yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Os nad yw gweithiwr proffesiynol yn gallu mynychu'r gynhadledd, dylai gyflwyno adroddiad fodd bynnag, a dylai hyn gynnwys eu barn eu hunain ar y perygl i'r plentyn, yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth nhw o'r plentyn a'r teulu.
- 4.5. Bydd cynrychiolydd o'r asiantaeth yn mynychu ar eu rhan er mwyn cyflwyno eu hadroddiad. Dylai'r Cadeirydd sicrhau bod y farn hon yn ffurfio rhan o'r drafodaeth yn y gynhadledd, gan ystyried ar yr un pryd ei bod yn farn a ffurfiwyd heb elwa o glywed cyfraniadau'r holl weithwyr proffesiynol eraill yn y gynhadledd.

## **5.0. Materion penodol**

- 5.1. Os mai dim ond un cynrychiolydd Ysgol sydd yn bresennol a dim ond un plentyn yn y teulu sy'n mynychu'r ysgol, bydd gofyn iddynt gyfrannu i'r broses gwneud penderfyniadau ar ran eu hasiantaeth o safbwynt yr holl blant a drafodir yn y gynhadledd, yn seiliedig ar y ffaith eu bod wedi clywed yr holl wybodaeth berthnasol yn y gynhadledd.
- 5.2. Mewn sefyllfaoedd lle mae grwpiau o frodyr a chwiorydd a does dim cytundeb, yna bydd pob plentyn yn cael ei ystyried ar wahân gyda'r grwpiau proffesiynol hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol gyda phlentyn unigol yn pleidleisio ar gofrestriad ar gyfer y plentyn hwnnw.
- 5.3. Y Cadeirydd sydd â'r cyfrifoldeb dros sicrhau fod rhieni, os ydynt yn anghytuno gyda'r penderfyniad neu'n anhapus â gweithrediad y gynhadledd, yn cael gwybodaeth am broses apelio / cwyno y bwrdd diogelu a'u bod yn cael gwybod fod opsiwn ganddynt o apelio yn erbyn y penderfyniad. Bydd panel annibynnol yn delio gyda chwynion ac mae'r opsiwn ganddynt i ofyn am ail gynnal y gynhadledd os yw'r gŵyn yn cael ei chynnal.